

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: WG23294

Atodiad 1 – Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Ymgynghoriad ar Ddiwygiadau Arfaethedig i Ddeddfwriaeth ar y Pŵer i Drechu Hawddfrentiau a Hawliau Eraill

Hoffem wybod eich barn ar ein cynigion i ddiwygio, drwy orchymyn, y darpariaethau yn y Deddfau canlynol sy'n darparu pwerau i sefydliadau perthnasol i'w galluogi i drechu hawddfrentiau a hawliau eraill dros dir sydd yn eu perchnogaeth, er mwyn gwella'r modd y cyflawnir prosiectau adfywio drwy ddileu rhwystrau i'r defnydd o'r tir:

- (i) Paragraff 6 o Atodlen 28 i Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980;
- (ii) Adran 19 o Ddeddf Trefi Newydd 1981; iii) Paragraff 5 o Atodlen 10 i Ddeddf Tai 1988: a iv) Adran 237 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn rhoi cynigion gerbron i ddiwygi'r darpariaethau a restrir uchod.

Os gwelwch yn dda, cyflwynwch eich sylwadau erbyn: 16/01/2015.

Os hoffech wneud unrhyw ymholiad ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn, e-bostiwch planconsultations-h@cymru.gsi.gov.uk neu ffoniwch 029 2082 5181.

Diogelu Data

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: WG23294

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Defnydd Tir: Pŵer i Drechu Hawddfrentiau a Hawliau Eraill

Dyddiad y cyfnod ymgynghori: 06/10/2014 – 16/01/2015

| | | |
|--|---|-------------------------------------|
| Enw | Rhian Jardine (Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy) | |
| Sefydliad | Cyfoeth Naturiol Cymru | |
| Cyfeiriad | Tŷ Cambria 29 Heol Casnewydd CAERDYDD CF24 0TP | |
| Cyfeiriad e-bost | Rhian.Jardine@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk | |
| Math (dewiser un o'r canlynol) | Busnesau/ Ymgynghorwyr | <input type="checkbox"/> |
| | Awdurdod Cynllunio Lleol | <input type="checkbox"/> |
| | Asiantaeth y Llywodraeth/ Arall o'r Sector Cyhoeddus | <input checked="" type="checkbox"/> |
| | Cyrff Proffesiynol/ Grwpiau Buddiant | <input type="checkbox"/> |

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: WG23294

| | | |
|--|---|--------------------------|
| | Sector gwirfoddol (grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunan-gymorth, mudiadau cydweithredol, mentrau cymdeithasol, cyrff crefyddol, a sefydliadau dielw) | <input type="checkbox"/> |
| | Arall (grwpiau nas rhestrir uchod) neu unigolyn | <input type="checkbox"/> |

| | A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r darpariaethau canlynol fel bod trechu hawddfrentiau a hawliau eraill yng Nghymru yn gymwys nid yn unig i godi, adeiladu neu ymgymryd â chynnal unrhyw adeilad neu gyfnod gwaith, ond hefyd i'r defnydd newydd, parhaol o'r safle os yw'r defnydd yn unol â chaniatâd cynllunio? | Ydw | Ydw (yn ddarostyngedig i sylw pellach) | Nac ydw |
|-----------|---|-----|--|--------------------------|
| C1 | (i) Paragraff 6 o Atodlen 28 i Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980; (ii) Adran 19 o Ddeddf Trefi Newydd 1981; (iii) Paragraff 5 o Atodlen 10 i Ddeddf Tai 1988: a (iv) Adran 237 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | X | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |

| | |
|-------------------------------|--|
| C2 | Rydym wedi gofyn cwestiwn penodol; os hoffech godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw iddynt, defnyddiwch y gofod isod i adrodd amdanynt os gwelwch yn dda |
| Sylwadau: Dim sylw. | |

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu datgelu i'r cyhoedd, ar y rhyngwrdd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb barhau'n ddiennw, rhowch dic yma:

Sut i Ymateb

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: WG23294

Os gwelwch yn dda, cyflwynwch eich ymateb mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

| |
|--|
| E-bost |
| Llenwch y ffurflen ymgynghori ac anfonwch hi at : planconsultations-h@cymru.gsi.gov.uk [Rhowch 'Ymgynghoriad ar Drechu Hawddfreintiau a Hawliau Eraill - WG23294 yn y llinell bwnc] |
| Post |
| Llenwch y ffurflen ymgynghori ac anfonwch hi at: Ymgynghoriad WG23294 Y Gangen Penderfyniadau Yr Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3 NQ |
| Gwybodaeth ychwanegol |
| Os oes gennych unrhyw ymholiad ynglŷn â'r ymgynghoriad, e-bostiwch: planconsultations@cymru.gsi.gov.uk neu ffoniwch Andrew Ward ar 029 2082 5181 |